

Arolygiaeth Gofal Cymru

Adroddiad Blynyddol 2023-2024

Fersiwn addas i blant
Tachwedd 2024





Croeso
i'r adroddiad

Helo!

Helo! Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ein gwaith ni yw sicrhau bod cartrefi gofal, meithrinfeydd a gwarchodwyr plant yn ddiogel ac yn gwneud gwaith da. Rydym hefyd yn gwirio sut mae cynghorau lleol yn helpu pobl sydd angen gofal.

Bydd yr adroddiad hwn yn dweud wrthyfch am yr hyn a welsom pan wnaethom edrych ar ba mor dda y mae gofal yn gweithio yng Nghymru.

Beth fyddwch chi'n ei ddarganfod y tu mewn?

1. Beth rydym yn ei wneud i helpu gofal yng Nghymru
2. Sut rydym yn gwirio gwasanaethau fel cartrefi gofal a gofal plant
3. Yr hyn a ganfuom eleni
4. Sut rydyn ni'n gwrando ar bobl fel chi



Rhagair gan
Gillian Baranski,
Prif Arolygydd

Helo pawb!

Gillian Baranski ydw i, Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae fy nhîm a minnau'n sicrhau bod plant, teuluoedd a phobl hŷn yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau hapus ac iach. Eleni, rydym wedi ymweld â llawer o leoedd i wirio pa mor dda y maent yn ei wneud a'u helpu i wella os oes angen hynny arnynt.

Credwn fod gofal da yn rhywbeth sy'n gwella'r byd. Mae'n helpu pobl i aros yn agos at deulu, mynd i'r gwaith, neu gael hwyl gyda ffrindiau. Fy nymuniad yw i bawb deimlo'n ddiogel a hapus pryd bynnag y byddant yn cael gofal!

Gadewch i ni blymio i mewn i'r adroddiad i weld beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud!

G. Baranski

Gillian Baranski
Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru



● Beth yw gofal?

Gofal yw pan fydd pobl yn helpu eraill. Gallai fod pan fydd gwarchodwyr plant yn gofalu am blant, neu ofalwyr yn gofalu am bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Yng Nghymru, mae llawer o bobl yn rhoi ac yn derbyn gofal, a'n gwaith ni yw gwneud yn siŵr ei fod y gorau y gall fod.

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae gofal yn helpu pobl i aros yn agos at eu teuluoedd a'u ffrindiau.
- Mae'n galluogi rhieni i fynd i'r gwaith gan wybod bod eu plant yn derbyn gofal da.
- Mae hyd yn oed yn helpu i gefnogi ein heconomi leol!



● Ein *swydd*

Rydym yn ymweld â llawer o leoedd, fel cartrefi gofal a chanolfannau gofal plant, i wneud yn siŵr eu bod yn helpu pobl yn y ffordd orau. Rydyn ni'n siarad â'r bobl sy'n byw yno a'r bobl sy'n gweithio yno, neu'n ymweld â nhw. Os oes angen i rywbeth fod yn well, rydyn ni'n eu helpu i ddarganfod sut.

Dyma beth rydyn ni'n ei wneud:

Cofrestru: Rydym yn sicrhau bod lleoedd fel cartrefi gofal neu feithrinfeydd yn dilyn y rheolau i fod yn ddiogel.

Arolygu: Rydym yn ymweld â'r lleoedd hyn i wirio a yw popeth yn gweithio'n dda.

Helpu i wella: Os nad yw rhywbeth yn mynd fel y dylai, rydym yn dweud wrthynt sut y gallant ei drwsio fel y gall pobl gael gwell gofal.



Ein ffocws

dros y flwyddyn
ddiwethaf

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gweithiodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn galed i wneud gwasanaethau gofal yng Nghymru yn well i bawb. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dri pheth mawr:

Arweinyddiaeth gref: Mae'n bwysig bod y bobl sy'n gyfrifol am gartrefi gofal a gwasanaethau eraill yn arweinwyr da. Mae hyn yn helpu'r tîm cyfan i gydweithio'n dda.

Cydweithio: Gwelsom pan fydd gwasanaethau gwahanol, fel meddygon, gweithwyr cymdeithasol, ac athrawon yn gweithio gyda'i gilydd, mae pawb yn cael gwell help. Rydyn ni eisiau gweld hyd yn oed mwy o hyn!

Gwella o hyd: Rydym am i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal barhau i ddysgu a thyfu, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd bob amser o wneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal da.



Yr hyn a
darganfuwyd
eleni

Dyma rai o'r pethau a ddarganfuom yn ystod ein gwiriadau eleni.

Gofal da: Roedd y rhan fwyaf o'r lleoedd y gwnaethom ymweld â nhw yn gwneud gwaith gwych! Roedd gan lawer o gartrefi gofal a meithrinfeydd bobl a phlant hapus. Ond mae angen mwy o help ar rai lleoedd, yn enwedig pan nad oes ganddyn nhw ddigon o staff.

Mae'r Gymraeg yn bwysig: Mae'n bwysig bod pawb yn gallu siarad Cymraeg os ydyn nhw eisiau. Mae'n rhan fawr o'n diwylliant! Rydym yn gwneud yn siŵr bod plant ac oedolion yn gallu cael gofal yn Gymraeg os ydyn nhw eisiau. Mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus a hapus.

Gofalu am blant: Agorwyd mwy o gartrefi gofal i blant, sy'n golygu mwy o leoedd i blant sydd angen lle diogel i fyw.

Helpu plant i aros gartref: Gwelsom fod gweithwyr cymdeithasol yn helpu teuluoedd fel bod plant yn gallu aros gartref gyda'u rhieni pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Ond weithiau, mae angen mwy o help ar deuluoedd.

Cefnogi gofalwyr: Mae gofalwyr yn bobl sy'n helpu eraill, fel gofalu am blant neu berthnasau hŷn, heb gael eu talu. Eleni, gwelsom fod angen mwy o help ar rai gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud eu gorau. Rydym yn annog cynghorau lleol i wneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael gwrandawriad ac yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt.



● Beth sydd **nesaf**?

Byddwn yn cadw golwg ar gartrefi gofal a gwasanaethau eraill i sicrhau eu bod yn gwneud y gwaith gorau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda mwy o wasanaethau i wneud yn siŵr bod plant ac oedolion yn cael yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.



Sut gallwch
chi **helpu**

Rydyn ni wrth ein bodd yn clywed gan blant a phobl ifanc am sut maen nhw'n teimlo am y gofal maen nhw'n ei gael. Gallwch chi helpu hefyd trwy rannu eich syniadau gyda ni! Os ydych chi erioed wedi bod i feithrinfa neu wedi cael gweithiwr cymdeithasol, byddem wrth ein bodd yn cael gwybod beth yw eich barn.

Sut i gymryd rhan:

- Dywedwch wrthym beth rydych yn ei hoffi am eich gofal.
- Rhowch wybod i ni os oes unrhyw beth a all fod yn well.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach, Cyfordd Llandudno, LL31 9RZ

0300 7900 126

AGC@llyw.cymru | arolygiaethgofal.cymru

